

Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru

TROSOLWG O'R WERS: Olivia

LLINYN WPSP: DIOGELU

PWNC: GYRWYR IFANC, CADW'N DDIOGEL 15– 18 oed A Cholegau Trydyddol

Mae gan ysgolion rôl ganolog i'w chwarae o ran lleihau'r risg hon drwy ddarparu mewnbynnau addysgol sy'n codi ymwybyddiaeth o ganlyniadau cymryd risgiau.

Drwy archwilio'r 5 Angheuol , gall swyddogion helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau i nodi risgiau a chanlyniadau posibl, cadw'n ddiogel a cheisio cymorth os oes angen.

Sicrhau bod y wers yn briodol ar gyfer anghenion dysgwyr o ran eu hoedran, eu haeddfedrwydd, eu hiaith/delweddau a ddefnyddir, a'r ddealltwriaeth sydd ei hangen. At hynny, dim ond os yw athro yn bresennol yn yr ystafell ddosbarth bob amser y dylid cyflwyno'r wers hon.

Dylai Swyddogion yr Heddlu sicrhau eu bod wedi trafod cynnwys y wers gyda'r athro/athrawes dosbarth a bod yn ymwybodol o unrhyw blant a allai fod yn fregus oherwydd cynnwys y wers.

Cwricwlwm Cymru: Datganiadau o Beth sy'n Bwysig:	CYTUNO
1. Mae Datblygu Iechyd a Lles Corfforol yn dod â manteision gydol oes	
a) Deall y ffactorau sy'n effeithio ar Iechyd a Lles Corfforol	
b) Datblygu ymddygiadau gwybodus cadarnhaol	✓
c) Anogwch nhw i fyw bywydau iach a gweithgar	
2. Mae'r ffordd rydym yn prosesu ac yn ymateb i'n profiadau yn effeithio ar iechyd meddwl a lles emosiynol	
a) Cysylltiadau rhwng profiadau, iechyd meddwl a lles emosiynol. Nid yw teimladau ac emosiynau yn sefydlog nac yn gyson.	
b) Datblygu empathi, strategaethau i reoleiddio emosiynau	✓
c) Cyfleu eu teimladau	✓
3. Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau pobl eraill	
a) Deall sut mae penderfyniadau a gweithredoedd yn effeithio ar eich hun, a chymdeithas, nawr ac yn y dyfodol. Deall ffactorau sy'n dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau	✓

b) Galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau meddwl beirniadol sydd eu hangen i ystyried eu penderfyniadau o ran goblygiadau posibl – gan gynnwys risg - iddyn nhw eu hunain ac eraill	✓	
c) Gwneud penderfyniadau ar y cyd – deall eu cyfraniad	✓	
d) Llwybrau gyrfa		
4. Mae'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydym ni ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles		
a. Deall rôl dylanwadau cymdeithasol ar eu bywydau. Rheolau, normau cymdeithasol, agweddau a gwerthoedd. Mae rhyngweithio yn effeithio ar ein hunaniaeth, gwerthoedd, ymddygiadau, perthnasoedd		
b) Mae dysgwyr yn ymgysylltu'n feirniadol â'r dylanwad cymdeithasol hwn		
5 Mae perthnasoedd iach yn hanfodol i'n lles		
a. Deall a gwerthfawrogi sut mae teimladau o eiddo a chysylltiad sy'n dod o berthnasoedd iach yn cael effaith bwerus ar iechyd a lles		
b) Cydnabod pryd mae perthnasoedd yn afiach a'r angen i fod yn ymwybodol o sut i gadw'n ddiogel a cheisio cymorth		
c) Deall y byddant yn profi ystod o berthnasoedd, yn meithrin ac yn cynnal perthnasoedd sut mae perthnasoedd iach yn hanfodol ar gyfer iach corff a meddwl yn caniatáu i ni ffynnu.		

<p>Cysylltiadau â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)</p> <p>Erthygl 13 - Yr hawl i gael gwybodaeth</p> <p>Erthygl 19 – Ni ddylech gael eich niweidio</p> <p>Erthygl 36 - Dylech gael eich diogelu rhag pethau sy'n eich niweidio</p> <p>Erthygl 37 – mae gennych yr hawl i gael eich trin yn deg os byddwch yn torri'r gyfraith</p>	<p>Mae'r adnodd hwn yn cefnogi ysgolion i ddatblygu eu dulliau o ymdrin â Lles ac at Ofal, Cymorth ac Arweiniad fel sy'n ofynnol gan Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN 2017. Mae hefyd yn adlewyrchu'r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</p>
<p>Y Gyfraith:</p> <p>Gweler y cynllun gwers isod am fanylion Cyfreithiau mewn perthynas â gwregysau diogelwch, tecstio, cyflymder, yfed a gyrru cyffuriau.</p> <p>Deddf Plant 1989 Deddf Addysg 2002</p> <p>Cadarnhawyd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 (y Cenhedloedd Unedig, 1989) gan y DU ar 16 Rhagfyr 1991.</p>	<p>Diogelu plant: cydweithio o dan Ddeddf Plant 2004 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006)</p> <p>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), 2014</p> <p>Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (2015)</p>

Trosolwg o'r Wers

Nod	Tynnu sylw at y 5 Angheuol.
Canlyniadau Dysgu	<p>I</p> <ul style="list-style-type: none"> • Addysgu pobl ifanc i allu gwneud y penderfyniadau cywir i gadw'n ddiogel wrth yrru neu deithio mewn ceir. • Deall bod gan rai gweithredoedd ganlyniadau difrifol • gwybod y Gyfraith sy'n ymwneud â throseddau gyrru
Meini Prawf Llwyddiant	<p>Erbyn diwedd y wers, byddwch yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwybod sut i wneud dewisiadau a phenderfyniadau diogel wrth yrru neu deithio mewn ceir • gallu deall bod gan rai gweithredoedd ganlyniadau difrifol • deall y Gyfraith mewn perthynas â throseddau gyrru • gwybod pwy all helpu
Adnoddau	<ol style="list-style-type: none"> 1. Pŵer Tynnu Sylw Angheuol 2. Taflen gweithgaredd Map Meddwl 3. Gwasgedd cyfoedion Taflen gweithgaredd
Geiriau Allweddol	Gyrru diofal a pheryglus, Cyflymder, Pwysau Cyfoedion, Canlyniadau